Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Tanya Owen**

**Llanelli**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

10/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 2 Awst 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn gallu ymlacio. Mae bron pob un ohonynt yn hyderus ac mae ganddynt lais da.
Mae'r plant yn rhyngweithio â'i gilydd ac yn rhyngweithio â'r gwarchodwr plant mewn ffordd dda. Maent yn mwynhau eu
cyfleoedd chwarae. Mae'r plant yn dechrau datblygu eu sgiliau annibyniaeth.

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn ddigon iach. Fodd bynnag, mae angen diweddaru rhai polisïau
a gweithdrefnau i adlewyrchu'r canllawiau cyfredol. Mae hi'n rhyngweithio â'r plant â chynhesrwydd a gofal gwirioneddol. Ar y cyfan, mae'r gwarchodwr plant yn darparu ar gyfer anghenion y plant yn unigol, ac mae'n ymwybodol iawn o'u hoff bethau a'u cas bethau.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr eiddo yn lân, yn groesawgar ac yn gyfforddus. Mae hi'n defnyddio
systemau priodol i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Ar y cyfan, mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod amrywiaeth fach o adnoddau o ansawdd da ar gael i'r plant, sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u camau datblygu.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain a'i oruchwylio'n briodol. Mae'r gwarchodwr plant yn drefnus
ac mae ganddi weledigaeth dda ar gyfer y lleoliad. Mae ganddi amrywiaeth foddhaol o bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer y lleoliad. Ar y cyfan, mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth foddhaol o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Rheoliadau. Mae'n sicrhau bod hyfforddiant gorfodol ar waith ac yn ymrwymedig i wella, yn dilyn yr argymhellion a wnaed yn ystod yr arolygiad.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae gan y plant safbwyntiau da a bydd rhai yn mynegi eu hunain yn dda, er enghraifft nododd un plentyn ei fod eisiau cael y ddoli yn gwmni wrth aros am y byrbryd boreol, a chafodd hyn ei gydnabod. Maent yn cael rhyddid i chwarae a gwneud dewisiadau am y teganau maent yn chwarae â nhw a pha weithgareddau yr hoffent eu gwneud o'r dewis bach sydd ar gael. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau dewis, enwi, a gosod yr anifeiliaid ar y mat chwarae.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent wedi setlo ac mae'n amlwg bod ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn. Mae'r plant yn gyfarwydd iawn ag arferion y lleoliad. Er enghraifft, mae'r plant yn gwneud eu ffordd at y bwrdd bwyd pan fydd hi'n amser byrbryd neu ginio. Maent yn meithrin cydberthnasau da â'i gilydd, gan ddysgu sut i rannu teganau gydag ychydig o gymorth. Mae'n amlwg eu bod yn cael gofal gan warchodwr plant sy'n eu hadnabod yn dda iawn. Mae hoffter amlwg a chydberthnasau agos i'w cael wrth i'r plant eistedd ar lin y gwarchodwr plant wrth iddynt chwarae. Caiff penderfyniadau a dewisiadau'r plant eu hystyried. Gwnaethant ddweud wrth y gwarchodwr plant nad oeddent eisiau bwyta eu cinio, a chafodd hyn ei barchu.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd, ac yn cyd-weithredu ac yn dysgu sut i rannu â'i gilydd. Wrth chwarae yn y tŷ doliau, gwnaethom glywed plant yn gofyn i'w gilydd, '*What have you got*?' Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgaredd adeiladu â blociau, maent yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd, yn gwenu, ac yn gallu enwi rhai lliwiau. Gwelsom y plant hefyd yn cofleidio ei gilydd yn yr ystafell chwarae. Dangosodd y plant ddiddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Fodd bynnag, mae'r gweithgareddau a'r adnoddau sydd ar gael yn gyfyngedig. Maent yn gallu cynnal eu chwarae am gyfnod o amser sy'n briodol i'w hoedran.

Mae'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn briodol, gan eu galluogi i wneud pethau drostyn nhw eu hunain. Gwelsom rai o'r plant yn defnyddio'r step yn yr ystafell ymolchi er mwyn golchi eu dwylo heb fawr ddim cymorth. Gallant gael gafael ar eu diodydd eu hunain yn ystod amser byrbryd neu ginio, ac mae bron pob un ohonynt yn bwydo eu hunain yn annibynnol. Caiff y plant hŷn eu hannog i sychu eu hwynebau eu hunain ar ôl bwyd. Caiff y plant hefyd eu hannog i helpu gyda'r broses o dacluso'r adnoddau.

| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
|---|---|

Mae'r rhyngweithio rhwng y gwarchodwr plant a'r plant yn gadarnhaol ac yn ofalgar, gwnaethom ei chlywed hi'n dweud,
*'Na ti, good girl.'* Mae hi'n dathlu cyflawniadau'r plant, *'Did you build that? Waw.'* Mae'r gwarchodwr plant yn fodel rôl dda ac yn annog cyfathrebu cadarnhaol a rhannu rhwng y plant. Er enghraifft, cafodd y plant eu hannog ganddi i rannu'r blociau adeiladu a'r teganau synhwyraidd â'i gilydd.

Ar y cyfan, mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau priodol i gadw'r plant yn ddiogel ac yn gymharol iach. Mae hi'n goruchwylio'r plant yn agos wrth iddynt chwarae. Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar gymorth cyntaf pediatrig, hylendid bwyd a diogelu plant. Mae dealltwriaeth y gwarchodwr plant o'r gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant yn briodol, ac mae'n gwybod gyda phwy i gysylltu pe bai pryder ynglŷn â lles plentyn. Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau hylendid da yn yr amgylchedd, gan sicrhau bod yr ardaloedd fel pin mewn papur. Mae'n sicrhau y caiff cofnodion glanhau eu cwblhau bob dydd.

Mae rheolaeth ddigonol gan y gwarchodwr plant o rai arferion hylendid. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo ar adegau priodol. Cafodd rhai o'r plant eu hannog i olchi eu dwylo cyn cinio. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu weips gwlyb yn dilyn amser bwyd er mwyn i'r plant sychu eu dwylo a'u hwynebau. Mae'r rhieni'n darparu bwyd i'r plant ac mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y bwyd yn cael ei storio'n briodol. Caiff cewynnau eu newid ar lawr yr ystafell ymolchi; felly caiff preifatrwydd ac urddas eu parchu. Fodd bynnag, nid yw'r canllaw atal a rheoli heintiau cyfredol yn cael ei ddilyn. Yn ystod yr ymweliad arolygu, nid oedd polisi na gweithdrefn newid cewynnau ar gael. Aeth y gwarchodwr plant i'r afael â hyn ar unwaith yn dilyn yr ymweliad, ac aeth ati i ddarparu copi i Arolygiaeth Gofal Cymru o'r polisi a'r weithdrefn newid cewynnau.

Mae'r rhyngweithio rhwng y gwarchodwr plant a'r plant yn gadarnhaol ac yn ofalgar. Mae'n adnabod y plant yn
dda ac yn diwallu eu hanghenion a'u dewisiadau yn gymharol dda. Mae'n cydnabod diddordebau'r plant ac yn gweithredu arnynt yn gadarnhaol. Er enghraifft, pan ddangosodd un plentyn nad oedd yn mwynhau'r gweithgaredd toes chwarae, cynigiwyd y jig-sos ganddi fel dewis arall. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ymddygiad y plant yn briodol. Mae'n defnyddio technegau i dynnu sylw pan fydd y plant eisiau chwarae gyda'r un adnoddau, ac yn cynnig tegan gwahanol iddynt chwarae gydag ef. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi anogaeth gadarnhaol drwy ganmol a dangos sensitifrwydd a dealltwriaeth. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo'r Gymraeg drwy gydol y dydd drwy sgwrsio, canu a defnyddio adnoddau fel llyfrau.

Mae'r gwarchodwr plant yn rhannu gwybodaeth am gynnydd y plentyn gyda'r rhieni ar lafar a thrwy'r negeseuon sydd wedi'u hysgrifennu yn y dyddiadur dyddiol. Nid oes cofnodion o

gynnydd y plant na'r gweithgareddau sydd wedi cael eu cynllunio ar hyn o bryd. Mae'n eu hannog i chwarae'n rhydd. Fodd bynnag, mae'r amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael yn rhydd ac sy'n hygyrch i'r plant yn gyfyngedig. Nid yw'r gweithgareddau a gynigir bob amser yn addas i amrediad oedran y plant sy'n bresennol.

| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| --- | --- |

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, fel pin mewn papur, ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r drws ffrynt ar glo ac yn cadw cofnod o ymwelwyr â'r safle. Mae'r ardal batio i'w chael yn yr awyr agored. Caiff asesiadau risg sylfaenol eu cwblhau, ond nid yw'r rhain wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar. Nid oedd unrhyw asesiad risg ar waith mewn perthynas â'r strwythur chwarae plastig yn yr awyr agored. Cafodd hyn ei unioni ar unwaith yn dilyn yr ymweliad, a chafodd copi ei anfon at AGC. Mae'n ymarfer y driliau tân yn rheolaidd, a chaiff cofnod ei gadw o'r rhain.

Mae'r safle yn groesawgar ac yn hygyrch i bawb. Mae'r plant yn cael budd o ystafell chwarae benodol, sy'n gartrefol ac yn olau. Yn y brif ystafell chwarae, ceir dodrefn lefel isel yn ogystal â droriau cadw yn cynnwys teganau ac adnoddau, ac ardal ar y llawr i chwarae. Gall y plant ofyn am ragor o adnoddau o'r cwpwrdd. Gall y plant ddefnyddio'r ystafell ymolchi ar y llawr gwaelod yn hawdd, sydd yn lân, mewn cyflwr da ac yn addas i blant. Mae ardaloedd ar gael i'r plant ymlacio ynddynt yn ogystal â chyfleoedd i'r plant gymdeithasu a bwyta gyda'i gilydd wrth y bwrdd bwyd. Ni wnaeth y gwarchodwr plant ddefnyddio'r ardal chwarae awyr agored ar ddiwrnod yr ymweliad. Mae'r ardal awyr agored yn cynnwys strwythur dringo plastig gyda llithren, si-sos plastig, tŷ chwarae, mainc picnic a theganau reidio.

Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i archwilio'r amrywiaeth ddigonol o deganau ac adnoddau chwarae sydd ar gael iddynt dan do, er enghraifft y blociau adeiladu, rhai teganau synhwyraidd, pensiliau lliwio, lluniau i'w lliwio, jig-sos, toes chwarae, tŷ doliau plastig a chegin chwarae. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod hi'n adfywio ac adnewyddu'r adnoddau'n rheolaidd yn unol â'r hyn mae'r plant yn ei fwynhau ac yn unol â'u hoedran. Mae'n sicrhau y gall y plant gael gafael ar amrywiaeth fach o gyfarpar sydd, ganh mwyaf, yn addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Mae gan y gwarchodwr plant nifer gyfyngedig o adnoddau i hyrwyddo dealltwriaeth y plant o amrywiaeth a diwylliannau. Dywedodd wrthym ei bod yn cynnig rhai gweithgareddau amlddiwylliannol, er enghraifft byddant yn creu llusernau wrth ddysgu am y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

| **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth | **Da** |
|---|---|

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth briodol o'i rôl a'r cyfrifoldebau rheoliadol. Mae datganiad o ddiben ar gael sy'n cydymffurfio â'r rheoliad, ac wedi cael ei ddiweddaru yn ystod yr arolygiad er mwyn adlewyrchu'r lleoliad presennol. Mae'r gwarchodwr plant yn cytuno ar gontractau gyda'r rhieni ac mae ganddi weithdrefn addas ar waith i gasglu caniatâd ganddynt ar gyfer
gweithgareddau fel rhoi cymorth cyntaf brys neu i ymgymryd â gweithgareddau eraill. Mae'r cofnodion o'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn gywir, ac mae'r cymarebau wedi cael eu bodloni. Mae'r yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn ddilys. Mae'r cofnodion yn dangos bod presenoldeb y plant yn cael ei gofnodi'n llwyddiannus.

Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth foddhaol o bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer y lleoliad, ond nid yw'r rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Yn dilyn yr ymweliad, cafodd y polisi amddiffyn plant ei ddiweddaru i gynnwys gwybodaeth am y Ddyletswydd Atal. Nid yw'r polisi anghenion dysgu ychwanegol (ALN) yn adlewyrchu'r canllawiau cyfredol. Mae gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y gwarchodwr plant yn ddilys. Fodd bynnag, mae angen i'r gwarchodwr plant ddiweddaru cofnodion y gwasanaeth a gedwir gan AGC i adlewyrchu pob aelod o'r cartref yn gywir.

Mae trefniadau addas ar waith i sefydlu a chynnal system ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a roddir i'r plant. Mae adroddiad ar ansawdd y gofal ar gael, ond nid yw safbwyntiau'r plant a'r rhieni wedi cael eu cynnwys yn weithredol. Mae'r gwarchodwr plant yn casglu safbwyntiau'r rhieni drwy holiaduron.
Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod y partneriaethau â'r rhieni yn dda. Mae'r adborth gan y rhieni yn gadarnhaol gan ddatgan bod y plant yn ffynnu yn y lleoliad a bod gofal a datblygiad y plant yn rhagorol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 15 | Nid yw'r gwarchodwr yn cydymffurfio ac nid yw'r datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 10 - Gofal Iechyd | Sicrhau bod yr arferion hylendid yn cael eu gwella mewn perthynas â golchi dwylo a newid cewynnau. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau bod y gweithgareddau'n addas ar gyfer oedran y plant a'u bod yn cael eu cynllunio yn unol â cham datblygu'r plant. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau y caiff datblygiad y plant ei gofnodi a'i fonitro. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau ar gael i'r plant sy'n hybu chwilfrydedd, dychymyg a chwarae synhwyraidd. |
| Safon 18 - Sicrhau ansawdd | Sicrhau bod tystiolaeth y caiff pob polisi, gweithdrefn ac asesiad risg eu hadolygu'n rheolaidd. |
| Safon 4 - Diwallu anghenion unigol | Datblygu eich dealltwriaeth o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol i Gymru ymhellach. |
| Safon 18 - Sicrhau ansawdd | Datblygu adolygiad o ansawdd y gofal ymhellach drwy gynnwys safbwyntiau'r plant a'r rhieni. |
| Safon 23 - Cyfarpar | Darparu cyfleoedd sy'n hyrwyddo amlddiwylliannaeth ac amrywiaeth. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 30/07/2024